# Atebion

Sleid 1: Mae rhywun wedi rhewi'r llaeth cyn rhoi'r grawnfwyd arno, felly pan fydd rhywun arall yn ei fwyta, bydd y llaeth yn galed.

Sleid 2: Mae halen yn y bowlen siwgr, felly pan fydd rhywun yn rhoi "siwgr" yn ei de, bydd yn rhoi halen yn lle. Ych a fi!

Sleid 3: Mae rhywun wedi gwneud twll yn yr afal ac wedi rhoi mwydyn / pry genwair bach plastig ynddo. Felly, pan fydd rhywun yn ei fwyta, bydd yn cael sioc.

Sleid 4: Mae'r pwdin yn edrych yn flasus ond sebon siafio sydd ar y darten, nid hufen. Ych a fi!

Sleid 5: Mae rhywun wedi rhoi mayonnaise yn y tiwb ac felly pan fydd rhywun yn defnyddio'r "past dannedd" i frwsio'i ddannedd, bydd yn cael blas rhyfedd yn ei geg.